# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **RHEOLIADAU RHEOLI MERCWRI (DIWYGIO) (YMADAEL Â'R UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **12 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio**

**<u>Deddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol gymwys</u>**

- Rheoliad (UE) Rhif 2017/852 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri, a diddymu Rheoliad (CE) Rhif 1102/2008

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2287 sy'n pennu'r ffurflenni i'w defnyddio mewn perthynas â mewnforio mercwri a chymysgeddau penodol o fercwri, a hynny'n unol â Rheoliad (UE) 2017/852

**<u>Deddfwriaeth Ddomestig</u>**

- Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017/1200

**<u>Yr UE</u>**

- Cytundeb yr AEE

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r OS sy'n gysylltiedig â Rheoli Mercwri o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

**Diben y diwygiadau**

Bydd Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 yn cael eu cyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ac maent oll yn OSau o dan y

weithdrefn negyddol. Diben **Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** yw gwneud y diwygiadau angenrheidiol i'r drefn, sy'n rheoli mercwri a'i gyfansoddion a allai gael eu rhyddhau i'r amgylchedd yn sgil gweithgareddau pobl. Yn sgil y gofynion rhyngwladol sy'n parhau mewn grym o dan Gonfensiwn Minamata, mae angen diwygio'r gyfraith a gadwyd yn ôl gan yr UE er mwyn sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol.

Heb y diwygiadau a gynhwysir yn yr OS ar gyfer Ymadael â'r UE, byddai'r ddeddfwriaeth yn cynnwys nifer o ddiffygion a allai greu ansicrwydd cyfreithiol i'r rhai y mae gofyn iddynt gydymffurfio â'r rhwymedigaethau.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OSau a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gyda nhw, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments